John Knox *c.*1514–1572

Diwygiwr Cristnogol

Ganwyd John Knox yn Giffordgate yn Haddington. Ychydig a wyddom am ei ddyddiau cynnar. Enw ei dad oedd William a deuai ei fam o deulu Sinclair, enw a ddefnyddiai Knox weithiau fel ffugenw. Mae'n fwy na thebyg fod ganddo frawd hŷn o'r enw William. Efallai iddo fynd i ysgol leol gan dderbyn addysg elfennol ac yna i Brifysgol St Andrews. Ar ddiwedd y 1530au fe'i hordeiniwyd yn ddiacon ac yn offeiriad gan William Chisholm, esgob Dunblane. Bu am gyfnod yn notari yng nghyffiniau Haddington.

Daeth John Knox i gysylltiad â dysgeidiaeth Brotestannaidd am y tro cyntaf yn ystod taith bregethu Thomas Guilliame yn Lothian. Ni wyddom ddim am hanes ei dröedigaeth ond fe aeth yn diwtor i feibion Hugh Douglas, Longniddry, a meibion John Cockburn, Ormiston. Dysgodd Ladin i'r bechgyn a'u harwain i astudio'r Beibl a holwyddoregau. Yn Ionawr 1546 aeth i gyfarfodydd gyda George Whishart. Ond gwaetha'r modd fe arestiwyd Whishart ac fe'i dienyddiwyd am heresi. Ofnai John Knox y byddai'r un peth yn digwydd iddo yntau ac felly aeth i guddio, ond roedd ei ofnau'n ddi-sail. Dychwelodd i ddysgu'r bechgyn. Daeth dan ddylanwad pregethu'r Protestant John Rough ac effeithiodd hyn yn drwm arno. Traddododd ei bregeth gyntaf ar Daniel 7:24-5 ac ynddi ymosodai'n chwyrn ar awdurdod y Babaeth. Yna ymosodwyd ar Gastell St Andrews ac fe'i cipiwyd gan y Ffrancwyr. Carcharwyd yr uchelwyr mewn cestyll Ffrengig a dedfrydwyd pobl gyffredin gan gynnwys Knox i fynd ar long gali. Bu yno am bedwar mis ar bymtheg. Yn ystod y dyddiau cynnar mabwysiadodd safbwynt eithriadol o wrth-Babyddol a bu hyn yn un o'i nodweddion trwy gydol ei oes.

Rhyddhawyd ef o'r llong yn Chwefror 1549 ac fe'i penodwyd fel pregethwr yn nhref filwrol Berwick. Yno casglodd o'i amgylch nifer o ddilynwyr Protestannaidd ac fe gyhoeddodd lyfr ar weddi, *A Confession and Declaration of Praiers* (1553). Aeth ati i ddatblygu litwrgi newydd ar gyfer addoliad a phwysleisiai fod yn rhaid i bopeth ddeillio'n uniongyrchol o'r Beibl. Ym 1551 symudodd i Newcastle i fyw lle y cyfarfu John Willock, gŵr a ddaeth yn ddiweddarach yn un o arweinyddion y Diwygiad Protestannaidd yn yr Alban. Yna symudodd i

Lundain i fod yn gaplan brenhinol. Ei waith oedd pregethu i'r Brenin Edward VI a'i lys a derbyniai gyflog blynyddol o £40. Aeth ati i awgrymu newidiadau i'r Llyfr Gweddi Gyffredin ac un ohonynt oedd gwahardd yr arfer o benlinio wrth dderbyn yr elfennau mewn cymun. Yn syth ar ôl marwolaeth Edward VI aeth i'r Alban a phan ddaeth y Pabydd Mari i'r orsedd ffodd i'r cyfandir am bedair blynedd. Aeth i Zurich i weld Heinrich Bullinger ac i Genefa i ofyn cyngor John Calvin. Yna gofynnodd y gymuned Saesneg yn Frankfurt a fyddai Knox yn barod i fod yn weinidog arnynt. Cytunodd am gyfnod byr ond fe gododd dadl ffyrnig yno a gofynnwyd iddo adael.

Yn Hydref 1555 dychwelodd i'r Alban. Priododd Marjory Bowes a ganed dau fab iddynt. Am gyfnod bu'n pregethu i'r eglwysi Protestannaidd tanddaearol yng Nghaeredin, y Lothians, Swydd Ayr a Swydd Renfrew. Noddwyd ef gan deuluoedd bonheddig ond roedd ei ddaliadau diwygiedig yn ennyn llid yr awdurdodau. Unwaith eto ciliodd i'r cyfandir, y tro hwn i Genefa. Credai Knox fod John Calvin wedi llwyddo i newid Genefa yn 'The maist perfyt schoole of Chryst ...' Gwasanaethodd yno mewn eglwys gyda Christopher Goodman. Yn y cyfnod hwn ysgrifennodd ei dract enwocaf sef *The First Blast* oedd yn condemnio hawl merched i lywodraethu ac yn annog gwrthwynebiad i'r Frenhines Mari Tudur. Ysgrifennodd ei waith hiraf yng Ngenefa ym 1558 sef *An Answer to a Great Nomber of Blasphemous Cavillations* oedd yn ymdrin â rhagordeiniad. Dychwelodd i'r Alban ym 1559 gan barhau gyda'r frwydr i ddiwygio'r eglwys yno. Daeth yn weinidog yn St Andrews a oedd yn ganolfan Brotestannaidd. Y flwyddyn ddilynol derbyniodd y Senedd y gyffes ffydd Albanaidd gan wrthod awdurdod y Pab. Aeth ati gyda phump o ddynion eraill i lunio llyfr disgyblaeth newydd i'r Kirk a mabwysiadwyd Beibl Genefa. Penodwyd ef yn weinidog yn St Giles, Caeredin, lle y derbyniai gyflog mawr o £566. Yma bu'n gweithio fel Comisiynydd Cyffredinol Cymanfa'r Eglwys yn yr Alban. Ym 1564 priododd ei ail wraig Margaret Stewart a oedd yn ddwy ar bymtheg oed ac yntau yn hanner cant.

Dychwelodd Mari i'r Alban ym 1561 a daeth Knox i wrthdrawiad â hi. Cyfarfyddodd â hi bedair gwaith i drafod materion crefyddol yn bennaf.

Yn Hydref 1570 cafodd strôc fawr a effeithiodd ar ei lais a'i gorff. Parhaodd i bregethu'n wythnosol yn St Giles ond bu farw ar 24 Tachwedd 1572 ac fe'i claddwyd ym mynwent yr eglwys.